

## Grŵp Cyngkori ar Bysgodfeydd Morol Cymru

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ddydd lau 19 Medi 2019, Ystafell Trawscoed, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn – 10am tan 4pm

### YN BRESENNOL

Nick O’Sullivan, Cadeirydd, Grŵp Cyngkori ar Bysgodfeydd Morol Cymru  
Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru  
John O’Connor, Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru  
Holly Whiteley, Seafish Wales  
Rowland Sharp, Cyfoeth Naturiol Cymru  
Kevin Denman, Cymunedau Pysgota De-orllewin Cymru  
Dean Parry, Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion  
Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru  
Trevor Jones, MSFOMA  
Gareth Bevington, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pysgodfeydd Morol a Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru  
Julian Bray, Prif Swyddog, Gweithrediadau Pysgota, Llywodraeth Cymru  
Colin Charman, Uwch-gynghorydd Pysgota, Llywodraeth Cymru  
Michelle Billing, Rheolwr Polisiâu Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru (Eitem 7)  
Lisa Barnwell, Rheolwr Digidol y Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru (Dangos sut i ddefnyddio cofnodion daliadau)  
Gary Douch, Pennaeth EMFF, Llywodraeth Cymru (Eitem 6)  
Hilary Evans, Rheolwr Cyllid Busnes a Chyfathrebu, Llywodraeth Cymru  
Marged Jones, Ysgrifenyddiaeth, Grŵp Cyngkori ar Bysgodfeydd Morol, Llywodraeth Cymru

#### 1 Croeso ac Ymddiheuriadau:

Croesawodd y cadeirydd bawb i’r cyfarfod a chyflwynwyd pawb.

Cyflwynodd y Cadeirydd Marged Jones, ysgrifenyddiaeth newydd y grŵp. Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Mark Roberts, Cwmni Cydweithredol Pysgotwyr Gogledd Cymru, Brett Garner, Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn, Sion William, Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn, Carwyn Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Len Waters, Cymdeithas Pysgotwyr Cregyn Gorllewin Cymru

#### 2 Cyflwyniad – datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf:

Eglurodd Gareth yn fras strwythur newydd yr STM, gan dynnu sylw at y ffaith bod gennym dîm penodol nawr o dan arweiniad Julian, fydd yn canolbwyntio’n benodol ar ddatblygu y polisi pysgodfeydd domestig. Roedd y grŵp yn croesawu hyn fel cam positif.

	<p>Rhoddodd Gareth y newyddion diweddaraf ar swydd wag y Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n cael ei recriwtio ar hyn o bryd.</p> <p>Dywedodd Gareth hefyd ein bod yn cael adnodd cyfreithiol penodol a ddylai gyflymu'r broses o gyflawni'r gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Cam 1 – Marged i anfon fersiwn electronig o'r oranogram.</p> <p>Eglurodd Gareth yn gryno y byddai'r Bil Pysgodfeydd yn cael ei grybwyll yn Araith y Frenhines ond gyda'r sefyllfa wleidyddol argyfyngus yn ddiweddar y gallai beidio â digwydd ac felly mae'n rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar ein deddfwriaeth bresennol. Bydd sgwrs fanylach am y mater yn y cyfarfod nesaf.</p>
3	<p><b>I) Cymeradwyo nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin</b>  Diwygiad: Tudalen 1, <b>Brett Garner a Mark Roberts ar goll o'r rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol – i'w hychwanegu</b></p> <p><b>CYMERADWYO</b></p> <p><b>II) Datblygiadau ar y Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol</b></p> <p>Aeth Julian â'r aelodau drwy'r camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau.</p> <p>Cam 5 – Eglurodd Julian bod y Grŵp Cyngori ar Ddyframaethu wedi dod i ben yn dilyn y ffaith mai ychydig oedd yn bresennol a bod pobl yn anfodlon.</p> <p>Cam 6 – Eglurodd Julian y caiff hyn ei ystyried wedi Brexit fel rhan o'r prosiect rheoli cocos. Gofynnodd Kevin a fyddai grŵp pysgodfeydd rhynglanwol yn cael ei gyfyngu i gocos yn unig, gan bod gweithgareddau pysgota rhynglanwol eraill yn digwydd megis pysgota gydag abwyd yn y De, a chasglu gwichiaid yn y Gogledd. Ar y cychwyn byddai'r drafodaeth yn canolbwyntio ar gocos.</p> <p>Cam 8 – Cytunwyd na ddylai hyn fod wedi bod yn gam ffurfiol. Dywedodd Jim nad oedd yr WFA wedi anfon ymateb ffurfiol at Adroddiad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.</p> <p>Cam 9 – Cafwyd cadarnhâd gan Gareth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad, gan ddarllen yr ymateb i aelodau. Arweinodd hyn at drafodaeth bellach ymhlith yr aelodau ble y gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Crybwyllodd Gill y digwyddiadau glanhau traethau gan MCS a'r ffaith mai offer pysgota oedd yr ysbwriel morol mwyaf cyffredin.</li> <li>- Roedd rhywfaint o feirniadaeth bod adroddiad y pwyllgor yn rhy syml.</li> <li>- Awgrymwyd y gellid, fel grŵp, sefydlu rhywbeth gyda'r Bartneriaeth Moroedd Glân i awgrymu syniadau i leihau sbwriel pysgota. Croesawodd y grŵp y posibilrwydd hwn o gydweithio.</li> <li>- Cam 2 – Gareth i siarad gyda Peter Davies o Bartneriaeth Moroedd Glân i weld a ellid sefydlu is-grŵp gyda aelodau WMFAG.</li> </ul> <p>Cam 3 – Gill i anfon gwybodaeth ymlaen ynghylch ffynonellau sbwriel morol at yr Ysgrifenyddiaeth fydd yn ei dosbarthu.</p>
4	<p><b>Treialu newidiadau i Strwythurau y Grŵpiau Cysylltu â Physgodfeydd:</b></p> <p>Eglurodd Julian hanes y Grŵpiau Cysylltu â Physgodfeydd ar y Glannau, a'r model presennol, a bod cael gwared ar yr IFGs ar yr un pryd ag ehangu aelodaeth yr WMFAG gan y grŵpiau gorchwyl a gorffen, yn parhau i fod yn</p>

broses dreialu oedd heb ei chwblhau. Edrychwyd ar y penderfyniad unwaith eto ym mis Hydref 2017, ac roedd bwriad i edrych ar hyn eto yn Hydref 2018, ond ni ddigwyddodd hyn. Gofynnodd i'r grŵp ystyried a ddylai strwythur dreialu gael ei sefydlu a'i gadarnhau fel 'model gweithredu' neu a ddylid ystyried model gweithredu arall. Trafododd y grŵp y strwythur oedd yn cael ei dreialu a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Cytunodd Jim bod y strwythur presennol yn gweithio yn dda ac roedd yn hapus i'r broses dreialu ddod i ben.
- Gofynnodd Gill a oedd yr WMFAG y lle iawn i drafod materion lleol gan fynegi pryder y gallai y bobl leol deimlo nad oeddent yn cael eu cynrychioli ar y grŵp.
- Roedd Trevor hefyd yn cwestiynu a oedd yr WMFAG yn gynrychiolaeth deg o fwyafrif y gymuned bysgota, gan nodi nad oedd yr un o gynrychiolwyr Gogledd Cymru yn bresennol yn y cyfarfod cyfredol, oedd yn golygu na fyddai'r trafodaethau mor gyflawn ag y gallant fod.
- Y teimlad cyffredinol oedd bod y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn wael, a bod angen cyfathrebu gwell ac uniongyrchol o ganlyniadau gan y grŵp yn dilyn pob cyfarfod.
- Awgrymodd Julian gynhyrchu crynodeb un dudalen y gellid ei anfon allan at aelodau wedi pob cyfarfod er mwyn iddynt ei hanfon ymlaen at eu cysylltiadau. Cytunodd yr Aelodau y byddai hyn yn fuddiol.
- Dywedodd Gareth y byddai'n well ganddo gadw at strwythur presennol y grŵp, gan gefnogi y syniad o greu un dudalen i gael ei hanfon allan yn dilyn pob cyfarfod.
- Cytunwyd y dylid cadw at y strwythur presennol, ond y byddai edrych ar hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod ym mis Rhagfyr.

Cam 4 – Julian/Marged i greu enghraifft o grynodeb un dudalen o'r cyfarfod i'w anfon allan am adborth gan yr aelodau.

Cam 5 – Julian i ysgrifennu at aelodau IFG i gadarnhau y bydd y model treialu yn cael ei sefydlu fel strwythur cysylltu parhaol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

### **Diwygio Cylch Gorchwyl yr WMFAG**

Yn dilyn camau o'r cyfarfod diwethaf, gwnaeth Gareth newidiadau i bwynt 7 y Cylch Gorchwyl, a dderbyniwyd gan y grŵp.

Cafodd y newidiadau canlynol eu gwneud hefyd i'r Cylch Gorchwyl a cytunodd yr aelodau:

- Tudalen 3, 2.4, cafodd 'Grŵp Cynghori ar Ddyframaethu' ei ddileu o deitl y grŵp gan i'r is-grŵp hwnnw gael ei ddileu.
- Tudalen 3, 3.1, cafodd Pysgod Môr ei ychwanegu at y rhestr o gymdeithasau allai gael un cynrychiolydd ar y grŵp.

Llofnododd yr aelodau a oedd yn bresennol gopi wedi'i ddiweddarau o'r Cylch Gorchwyl, fodd bynnag, bydd Marged yn anfon copi caled at aelodau nad oedd yn bresennol er mwyn iddynt ei lofnodi a'i ddychwelyd mewn amlen ragdaledig.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cam 6 – Marged i anfon copiâu o'r Cylch Gorchwyl diwygiedig at aelodau oedd yn absennol iddynt ei lofnodi a'i ddychwelyd mewn amlen ragdaledig.</li> </ul>
<p><b>5</b></p>	<p><b>Rheoli a Gorfodi</b></p> <p>Eglurodd Gareth bod caniatâd wedi ei roi i gael 14 aelod arall o staff gorfodi ond y byddai'r recriwtio yn cymryd amser. Cafwyd cadarnhad y byddai'r aelodau staff newydd hyn yn cael hyfforddiant i fod yn swyddogion gwarantedig llawn.</p> <p>Gofynnodd Gill a ellid cynnwys cymal i orfodi mesurau cadwraeth yng nghylch gwaith Swyddogion Gorfodi Morol yn y dyfodol. Roedd Trevor yn cefnogi hyn, gan awgrymu y dylai Swyddogion Gorfodi Morol dderbyn mwy o hyfforddiant ar faterion cadwraeth.</p> <p>Roedd nifer o aelodau yn tynnu sylw at y pryderon ynghylch y diffyg Swyddogion Gorfodi Morol ar gael ar hyn o bryd, gan groesawu y ffaith y byddai rhagor o adnoddau ar gael, gan bwysleisio pa mor bwysig oedd i Swyddogion Gorfodi Morol feithrin perthynas â physgotwyr.</p> <p>Eglurodd Julian bod yr adnoddau wedi bod yn hynod o brin yng Ngogledd Cymru, a bod Swyddog Gorfodi Morol wedi bod yn gweithio drwy yr achosion oedd yn aros heb eu prosesu. Mae mwyafrif yr achosion hyn wedi mynd drwy'r llysoedd bellach ac wedi arwain at erlyniadau.</p> <p>Gofynnodd Jim pa mor aml oedd patrolau, gan gyfeirio at yr ystadegau a gafwyd yn y papur. Eglurodd Julian y dylid edrych ar y ffigurau fel y rhifau isaf a'i bod yn bosibl nad oedd rhai patrolau RIB wedi eu cynnwys. Cytunwyd ei fod yn bwysig sicrhau bod yr ystadegau a roddwyd yn fwy cywir yn y dyfodol.</p>
	<p><b>Dangos y system newydd Electronig i Gofnodi Daliadau</b></p> <p>Rhoddodd Lisa Barnwell gyflwyniad ar y system electronig newydd i gofnodi daliadau, gan gynnwys fideo i ddangos sut oedd yn gweithio</p> <p>Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau y grŵp:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Codwyd pryderon ynghylch y pysgotwyr hynny sydd heb ffonau smart neu gyfrifiaduron. Holwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau newydd. Dywedodd Lisa y byddai hyfforddiant a chymorth ar gael.</li> <li>- Gofynnodd Jim a gynhaliwyd asesiad o'r effaith ymlaen llaw. Dywedodd Lisa y byddai'n holi a oedd un wedi'i wneud.</li> <li>- Gwnaethpwyd y pwynt bod angen diffiniadau a rheolau clir yn y rheoliadau oedd yn dod gyda'r system newydd, yn bennaf oherwydd risgiau iechyd a diogelwch a allai godi o orfod rhoi'r daliadau yn y system cyn eu dadlwytho o gwch ble oedd llithrfa yn cael ei ddefnyddio er enghraifft.</li> <li>- Cafwyd trafodaeth ar y swyddogaethau ychwanegol y gellid eu hychwanegu at y cymhwysiad er mwyn casglu rhagor o ddata. Eglurodd Lisa ei bod yn bosibl ychwanegu nodweddion ychwanegol yn y dyfodol. Pwysleisiwyd yr angen i gasglu data o safon uchel er mwyn rheoli pysgodfeydd yn eu cyfanrwydd.</li> <li>- Cam 7 – Lisa i anfon y cyflwyniad at Marged i'w ddsbarthu at aelodau yn electronig.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cam 8 – Lisa i ddod i wybod a gafodd Asesiad Effaith Rheoleiddio ei gynnal ymlaen llaw.</li> </ul>
<b>6</b>	<p><b>Diweddaraid ar y Cynllun newydd i olynu yr EMFF</b></p> <p>Rhoddodd Gary Douch gyflwyniad ar y cynllun sy'n olynu yr EMFF a chynlluniau posibl yn y dyfodol. Cafwyd yr adborth canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwnaeth Kevin y pwynt bod angen ehangu'r seilwaith yng Nghymru. Eglurodd bod pysgota wedi'i gyfyngu yn y de oherwydd mynediad at adnoddau. Awgrymwyd bod angen datblygu arwerthiannau i ehangu marchnadoedd.</li> <li>- Bu'r grŵp yn trafod sgipiau y mae modd eu cloi a arferai gael eu darparu mewn harbyrau i bysgotwyr gael gwared ar eu sbwriel gan gynnwys sbwriel o'r môr, er nad oedd cytundeb o ran pwy ddylai dalu am y rhain (Cysylltiad â Cham 2).</li> <li>- Dywedwyd bod y cynllun yn rhy araf a bod angen ei symleiddio a bod angen i gynlluniau yn y dyfodol gael eu datganoli er mwyn gwneud y gadwyn yn fyrrach a chyflymu'r broses.</li> <li>- Gofynnodd Gill a oedd modd ehangu'r cynllun i gadwraeth drwy gofnodi mwy o ddata ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy.</li> </ul>
<b>7</b>	<p><b>Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig</b></p> <p>Cyflwynodd Julian y papur.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dywedodd Julian wrth y grŵp bod 554 o drwyddedau pysgota hamdden â chawell wedi'u cyhoeddi yn y flwyddyn ddiwethaf</li> <li>- Gofynnodd Jim a oedd modd diwygio'r cynllun trwyddedu i gynnwys amod y byddai'n rhaid i bob deiliad trwydded ddefnyddio'r system cofnodi daliadau electronig newydd, gan nad oes yn rhaid iddynt gofnodi eu daliad ar hyn o bryd.</li> <li>- Roedd Gareth yn cydnabod nad oedd pethau wedi digwydd yn ôl y cynllun, ond gyda tîm newydd Julian yn canolbwyntio ar bolisi domestig yn unig, dylai pethau ddatlbygu'n gyflym bellach.</li> <li>- Rhoddodd Michelle Billing y newyddion diweddaraf ar y gwaith deddfwriaethol ar Gregyn Moch. Daeth yr Offeryn Statudol i gynyddu MCRS i rym ym mis Gorffennaf, ac mae OS arall yn cael ei baratoi ar hyn o bryd fel mater o flaenoriaeth.</li> <li>- Nododd Colin Charman bod cynnydd da wedi'i wneud ar y gwaith o Asesu Pysgodfeydd Cymru. Roedd yn diolch i'r pysgotwyr am eu cydweithrediad wrth helpu i benderfynu ar y canlyniadau delfrydol ar gyfer rhai o'r nodweddion, gan hysbysu'r grŵp bod y llong ymchwil Prince Madog yn edrych ar rai meysydd o ddiddordeb ar hyn o bryd.</li> </ul>
<b>8</b>	<p><b>Y Polisi Pysgodfeydd Rhyngwladol / Trafodaethau Cwotâu 2020</b></p> <p>Rhoddodd Gareth amlinelliad cryno o'r dair sefyllfa bosibl yn dilyn Brexit.</p> <p>Gofynnodd Gareth i'r Grŵp am y ffordd orau o drafod Brexit gyda'r aelodau cyn cyngor mis Rhagfyr. Eglurwyd bod cwestiynau o hyd ynghylch a fyddem yn cael cynrychiolaeth yno ei peidio. Awgrymwyd sefydlu Bwrdd Trafod Brexit gyda'r aelodau i drafod hyn ymhellach.</p>

	Cam 9 – Bydd Elin Gwynedd yn sefydlu Bwrdd Trafod Brexit gyda rhai aelodau WMFAG.
<b>9</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b> Dywedodd Julian wrth y grŵp ein bod wedi derbyn 57 ymateb i'r Ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd ac y byddai crynodeb o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi yn fuan.
	<b>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.</b>